Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

Ystafell Bwyllgora 3 – Y Senedd

Dyddiad: Dydd Llun, 5 Tachwedd 2018

Amser: 15.21 – 17.13

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV

http://senedd.tv/cy/5038tv/

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Cynulliad:	Nick Ramsay AC (Cadeirydd) Mohammad Asghar (Oscar) AC Neil Hamilton AC Rhianon Passmore AC Adam Price AC Jenny Rathbone AC
Tystion:	Tim Howard, Llywodraeth Cymru Andrew Slade, Llywodraeth Cymru Jason Thomas, Llywodraeth Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru:	Adrian Crompton (Archwilydd Cyffredinol Cymru) Mike Usher
Staff y Pwyllgor:	Fay Bowen (Clerc) Claire Griffiths (Dirprwy Glerc) Katie Wyatt (Cynghorydd Cyfreithiol)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Jack Sargeant AC.

2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

2.1 Cyfoeth Naturiol Cymru: Craffu ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2017-18 - Gohebiaeth gan Clare Pillman (17 Hydref 2018)

3 Perthynas Llywodraeth Cymru â Pinewood: Sesiwn dystiolaeth gyda Llywodraeth Cymru

3.1 Cafodd yr Aelodau dystiolaeth gan Andrew Slade, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol; Jason Thomas, Cyfarwyddwr, Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth, a Tim Howard, Dirprwy Gyfarwyddwr Eiddo, Llywodraeth Cymru fel rhan o'u hymchwiliad i berthynas Llywodraeth Cymru â Pinewood.

3.2 Cytunodd Andrew Slade i wneud y canlynol:

- Anfon nodyn yn esbonio cyfansoddiad y Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau o £42 miliwn
- Rhoi ffigurau manwl holl refeniw Stiwdio Pinewood Cymru am y flwyddyn ariannol ddiwethaf pan fo'r sefyllfa olaf yn hysbys
- Darparu amserlen ar gyfer adnewyddu arfaethedig y ffermdy rhestredig Gradd II ynghyd â'r holl gostau hyd yn hyn ar gynnal yr adeilad a chostau adnewyddu arfaethedig

4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y mater a ganlyn:

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

5 Perthynas Llywodraeth Cymru â Pinewood: Trafod y dystiolaeth a gafwyd

5.1 Trafododd yr Aelodau'r dystiolaeth a ddaeth i law.

5.2 Cytunodd yr Aelodau i gyhoeddi eu canfyddiadau mewn adroddiad.

6 Cyfoeth Naturiol Cymru: trafod yr adroddiad drafft

6.1 Trafododd yr Aelodau un rhan o'r adroddiad unwaith eto ac, ar ōl ystyriaeth, bydd y Clercod yn newid geiriad a chylchredeg fersiwn ddiwygiedig trwy e-bost i'w gytuno.